

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Heb eu Cadarnhau

**Nodiadau Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y Bwrdd Iechyd
a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf 2019
yn Ystafell y Mileniwm, Pencadlys y Bwrdd Iechyd, Baglan**

Rhif y Nodyn	CROESO	Gweithredu
01/19	Roedd Emma Woollett wedi croesawu pawb i'r cyfarfod cyffredinol blynnyddol, yr un cyntaf i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, a chyfle i edrych yn ôl ar waith blwyddyn olaf Bwrdd Iechyd PABM. Roedd hi wedi diolch i aelodau'r cyhoedd am ddod, gan ychwanegu ei bod yn braf gweld cynifer o bobl nad ydynt yn aelodau o'r bwrdd.	
02/19	DIGWYDDIAD: GOFAL YN Y GYMUNED A ALLUOGIR YN DDIGIDOL	
	Cafodd cyflwyniad sy'n amlinellu'r gwaith o ddarparu atebion digidol er mwyn i staff cymunedol gefnogi gofal eu cleifion ei dderbyn. Tynnwyd sylw at y pwyntiau canlynol: - Bu nifer o ysgogwyr dros newid gan gynnwys mynediad cyfyngedig i systemau TG i ffwrdd o fannau gwaith, gwybodaeth nad oedd ar gael yn electronig yn y man gofal a gormod o ddibyniaeth ar atebion ar bapur; - Sicrhawyd cyllid trwy 'Gronfa Effeithlonrwydd Trwy Dechnoleg' Llywodraeth Cymru a sefydlwyd prosiect dan arweiniad clinigwyr a oedd yn rhoi tabledi a chymwysiadau symudol i staff clinigol yn y gymuned; - Roedd y gweithlu cymunedol cyfan (2,400 o staff) bellach yn defnyddio gweithio symudol; - Roedd rhai o'r manteision yn cynnwys: • Roedd cyfanswm yr apwyntiadau cleifion wedi cynyddu 17% ar gyfartaledd - 46,283 i 54,189, sef cynnydd o 7,906 yn fwy o gysylltiadau â chleifion; • Roedd ffigurau 'dychwelyd i'r man gwaith' ar gyfartaledd wedi gostwng o wyth i ddau y dydd; • Gostyngiad sylweddol ran y costau teithio a hawllir; • Mae sgôr profiad staff wedi gwella, yn enwedig mewn meysydd o werth a diogelwch personol. - Dangoswyd fideo hefyd i ddarparu adborth staff.	

03/19	CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD	
	Gwahoddwyd aelodau'r cyhoedd i ofyn cwestiynau ar gyflwyniad y digwyddiad a gofynnwyd y cwestiynau canlynol: (i) <u>Pa mor ddiogel oedd y system – a oedd risg y byddai nodiadau cleifion yn cael eu gweld gan bobl nad ydynt yn staff?</u> Esboniodd Matt John (Prif Swyddog Gwybodaeth Dros Dro) fod cyfrinachedd cleifion yn cael ei gymryd o ddifrif ac nad oedd unrhyw wybodaeth yn cael ei storio ar y ddyfais, roedd yn cael ei chadw ar weinydd diogel. Ychwanegodd na allai unrhyw un arall gael gafael ar yr wybodaeth heblaw'r unigolyn a oedd i fod i gael gafael arni a bod y prosiect yn cydymffurfio'n llawn â rheoliadau rheoli gwybodaeth a diogelwch TG. (ii) <u>A oedd llawer o staff cymunedol yn pryderu am newid i weithio digidol?</u> Dywedodd Tanya Sprigs (Pennaeth Nyrsio Cymunedol) fod hyrwyddwyr digidol yn cael eu penodi ym mhob tîm i ddarparu cymorth i gydweithwyr sy'n llai hyderus.	
04/19	CRYNODEB Y FLWYDDYN	
	Cafodd crynodeb o gynnydd, cyflawniadasu a meysydd i'w gwella 2018-19 ei dderbyn a thynnwyd sylw at y canlynol: - Talwyd teyrnged i'r cadeirydd blaenorol, Andrew Davies, am ei waith caled a'i ymrwymiad yn ystod ei gyfnod yn y swydd; - Roedd yn bwysig bod y sefydliad yn canolbwyntio ar iechyd y boblogaeth gan fod pobl yn byw yn hirach, ac felly roedd angen help arnynt i gadw'n iach, yn enwedig o ran afiechydon y gellir eu hatal; - Nid oedd y bwrdd iechyd yn ddim heb ei bobl ac roedd y Prif Weithredwr wedi ymweld yn rheolaidd â gwasanaethau amrywiol; - Enillwyd nifer o wobrau trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys yr Athro Farah Bhatti a oedd y llawfeddyg cardiothorasig benywaidd cyntaf i gael ei ethol i Gyngor Coleg Brenhinol y Llawfeddygon yn Lloegr; - Amlinellwyd trosolwg o ansawdd a diogelwch, perfformiad, cyllid, ystadau a'r amgylchedd a chyflawniadau'r gweithlu a meysydd ffocws; - Rhannwyd y blaenoriaethau ar gyfer 2019-20 gan gynnwys canolbwyntio ar gyflawni cynllun ariannol cytbwys, cynllun tair blynedd a chynlluniau strategol trwy'r portffolio trawsnewid a'r	

	model gweithredu newydd; gwneud cynnydd yn erbyn y naw blaenoriaeth ansawdd a diogelwch a recriwtio.	
05/19	CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD	
	Gwahoddwyd aelodau'r cyhoedd i ofyn cwestiynau ar gyflwyniad crynodeb y flwyddyn a gofynnwyd y cwestiynau canlynol: (i) <u>A oedd gwelyau ychwanegol yn dal i gael eu rhoi ar y wardiau yn ystod cyfnodau o bwysau gweithredol uchel?</u> Esboniodd Gareth Howells (Cyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiad y Claf) y bu newid allweddol ers 2017-18 yn yr ystyr bod asesiad risg wedi'i gynnal ar gyfer pob gwely ychwanegol a bod llai ar gael eleni, ond roedd pob un wedi'i staffio. Ychwanegodd er nad oedd y broses wedi dod i ben, roedd mwy o reolaeth ar waith ac roedd rheolwyr safle yn fwy cyfforddus. (ii) <u>A oedd y lefelau a amlinellwyd yn Neddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn cael eu cyflawni er gwaethaf y prinder nyrsys ledled y DU?</u> Dywedodd Gareth Howells fod y bwrdd iechyd yn cymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Ddeddf a'i fod wedi cyflawni hyn yn 2018-19 gyda buddsoddiad o £3.9m. Ychwanegodd fod 118 o nyrsys newydd gymhwyso wedi'u recriwtio yn ddiweddar ac y byddent yn dechrau yn eu swydd ym mis Medi 2019. (iii) <u>Roedd angen y defnydd gorau o adnoddau fwy nag erioed er mwyn darparu mwy o ofal yn y gymuned felly sut y byddai hyn yn cael ei ymgorffori mewn arferion pob dydd?</u> Esboniodd Tracy Myhill fod angen dull gweithredu ar draws y bwrdd er mwyn symud mwy o wasanaethau i ffwrdd o safleoedd ysbytai ond roedd angen mwy o waith yn hyn o beth. Ychwanegodd Hilary Dover (Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Uned Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol) fod dull cydgynhyrchu yn cael ei annog trwy'r bwrdd trawsnewid, a dyma ddechrau'r daith i gael pobl i weithio gyda'i gilydd, a gellid dysgu gwersi gan rai o'r arweinwyr gwasanaeth sy'n cofleidio'r broses. (iv) <u>O fewn y polisi rheoli presenoldeb, roedd darpariaeth ar gyfer mynediad cyflym at wasanaethau ond nid oedd y cyflymder roedd staff yn cael eu gweld mewn rhai meysydd yn amserol.</u> Dywedodd Hazel Robinson (Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol) fod arian 'buddsoddi i arbed' wedi'i roi yn y gwasanaeth lles gan leihau'r amser aros am iechyd galwedigaethol o wyth wythnos i rhwng dau a phum diwrnod ar gyfer yr alwad ffôn gyntaf ac roedd mynediad cyflym ar gael ar gyfer cwnsela neu ffisiotherapi wedi hyn. Roedd bron i 1,400 o staff wedi defnyddio'r gwasanaeth ac roedd nifer	

	yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i aros yn y gwaith heb ymyrraeth bellach. Er bod y gyfradd absenoldeb salwch yn gostwng, roedd mwy o waith i'w wneud. (v) <u>Diolch</u> Roedd aelod o'r cyhoedd wedi diolch i'r sefydliad am y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd i'w gŵr a oedd yn byw gyda dementia ac roedd hi'n teimlo ei fod wedi cael ei drin â mwy o urddas a pharch dros y flwyddyn ddiwethaf, gan ei wneud yn hapusach i fynd i apwyntiadau.	
06/19	SYLWADAU I GLOI	
	Roedd Emma Woollett wedi diolch i bawb am ddod. Nododd fod y flwyddyn ddiwethaf wedi dangos cynnydd pwysig a phwysleisiodd fod y sefydliad yn benderfynol o barhau â'r cynnydd hwnnw gan ganolbwyntio ar ddarparu gofal o'r safon uchaf. Ychwanegodd na allai'r sefydliad gyflawni ei uchelgeisiau heb weithio'n agos gyda'i bartneriaid a chymunedau lleol. Daeth i'r casgliad ei bod yn falch o'r staff a'u cyflawniadau, yn ogystal â'r gwaith maen nhw'n ei wneud o ddydd i ddydd, yn glinigol ac yn anghlinigol, ac roedd yn edrych ymlaen at ddathlu'r llwyddiannau sydd ar ddod yng Nghyfarfod Cyffredinol Blyneddol y flwyddyn nesaf.	

.....

Emma Woollett (Cadeirydd Dros Dro)

.....

Dyddiad: